Llywodraeth Cymru

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

## Rhestr Wirio Symud Adweithyddion TB i'r Perchennog - Cymru

Yn eich prawf TB diweddar, datgelwyd adweithyddion. Mae cyfyngiadau symud awtomatig arnoch sy'n eich gwahardd rhag symud anifeiliaid buchol i'r safle ac oddi arno ac eithrio o dan drwydded symud TB. Os caiff anifeiliaid eu symud i'ch daliad neu oddi yno heb drwydded symud ddilys, byddai hyn yn torri Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd), a gellir eich erlyn. Gall unrhyw iawndal TB sydd i'w dalu ar gyfer anifeiliaid a symudwyd heb drwydded gael ei leihau hyd at 95%.

Cymerwch yr amser i ddarllen y wybodaeth amgaeëdig yn y daflen hon a'r rhestr wirio, gan y bydd yn eich helpu i baratoi at brisio'r anifail/anifeiliaid a'i symud/a'u symud oddi ar eich safle, er mwyn sicrhau y gellir gwneud hynny cyn gynted ag y bo modd.

Ar gyfer buchesi godro - dylech gysylltu â'ch prynwr llaeth ar unwaith i sicrhau y caiff llaeth o'ch buches ei drin â gwres cyn iddo gael ei yfed gan bobl. Mae'n rhaid atal llaeth o anifeiliaid sy'n adweithyddion rhag mynd i mewn i'r tanc llaeth ac ni ddylid ei fwydo heb ei basteureiddio i loi na mamaliaid eraill.

**Dogfennau**
Anfonir y dogfennau isod atoch yn fuan. Mewn rhai achosion, ni fydd yr holl ddogfennau'n berthnasol ac felly ni chânt eu cynnwys.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Llythyr ynghylch Achos(ion) o Dwbercwlosis (TR35)** - Dyma'r llythyr eglurhaol ar gyfer pob Achos TB newydd. Fel y cyfryw, caiff ei gynnwys ar gyfer achosion newydd yn unig, nid achosion TB parhaus. | ☐ |
| 2. | **Hysbysiad o Fwriad i Ladd Anifeiliaid Buchol (TB03)** - I'w gadw ar gyfer eich cofnodion chi. Mae'r hysbysiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ynysu unrhyw anifail/anifeiliaid y bwriedir ei symud/eu symud oherwydd rhesymau TB. Gall methu â chydymffurfio â'r hysbysiad hwn arwain at leihau eich iawndal hyd at 95%. Os ydych yn bwriadu hawlio ar unrhyw becyn yswiriant sydd gennych, gofynnir i chi ddarparu copi o hwn. | ☐ |
| 3. | **Hysbysiad yn ei Gwneud yn Ofynnol i Adweithyddion Amhendant gael eu Hynysu (TB34)** - I'w gadw ar gyfer eich cofnodion chi. Dim ond os oes gennych unrhyw Adweithyddion Amhendant y mae angen eu hynysu y caiff hwn ei gynnwys. | ☐ |
| 4. | **Datganiad o Gwblhau Glanhau a Diheintio (BT05)** - Mae'n rhaid i'r diheintydd a ddefnyddiwch fod ar y rhestr o ddiheintyddion a gymeradwyir yng Nghymru, Lloegr a'r Alban o dan y Gorchmynion Twbercwlosis, ar y gyfradd wanhau gymeradwy. Dylech nodi'r diheintydd a ddefnyddiwyd a'r gyfradd wanhau ar y Datganiad pan fyddwch ei ddychwelyd i APHA Cymru. Dim ond ar ddiwedd Achos TB os bydd APHA Cymru wedi derbyn Datganiad (BT05) wedi'i lenwi'n gywir sy'n cadarnhau bod gwaith glanhau a diheintio wedi'i gwblhau ar ôl i'r anifail olaf gael ei symud y gellir codi cyfyngiadau symud. | ☐ |
| 5. | **Trwydded Gyffredinol sy'n Awdurdodi Symud Gwartheg i Ladd-dy Trwyddedig yn uniongyrchol neu drwy Grynhoad Lladd TB cymeradwy (TB24c)** - Mae'r | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| | drwydded hon yn caniatáu symud anifeiliaid buchol i ladd-dy trwyddedig, naill ai'n uniongyrchol neu drwy grynhoad lladd TB cymeradwy, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r manylion a restrir ar y drwydded hon. **Nid** yw'r drwydded hon ar gyfer symud anifail/anifeiliaid adweithio/Cyswllt Uniongyrchol neu adweithio amhendant. Fel arfer, caiff ei rhoi ar ddechrau eich achos o TB a bydd yn parhau i fod yn ddilys nes y caiff cyfyngiadau TB eu codi neu nes y caiff ei diddymu gan ffurflen (TB24d) a roddir gan APHA. | |
| **6.** | **Taliadau iawndal TB - Cadarnhau Manylion ac Ymgymeriadau Perchennog (TR561)** - Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod teitl masnachu, cyfeiriad a Chyfeirnod Cwsmer (CRN) y perchennog/busnes a gaiff eu defnyddio i wneud yr holl daliadau iawndal TB yn gywir. Caiff y Cadarnhau Manylion ac Ymgymeriadau Perchennog (TR561) ei anfon ar ddechrau pob achos newydd o TB ac mae'n rhaid ei ddychwelyd i APHA Cymru cyn y gellir gwneud taliadau iawndal. Hefyd, mae'n rhaid rhoi gwybod i APHA Cymru a Thaliadau Gwledig Cymru (RPW) am unrhyw newidiadau dilynol a wnaed yn ystod cyfnod yr Achos o TB i deitl masnachu, cyfeiriad neu CRN y perchennog/busnes. | ☐ |

**Gweithdrefnau Prisio**

Bydd APHA Cymru yn cysylltu â chi i drefnu prisio'r anifail/anifeiliaid a restrwyd yn yr Hysbysiad o Fwriad i Ladd Anifeiliaid Buchol (TB03). Os na fydd yn cysylltu â chi o fewn pum diwrnod gwaith, ffoniwch swyddfa APHA Cymru.

Bydd APHA Cymru yn gwneud trefniadau i symud y gwartheg o fewn deg diwrnod gwaith ar ôl nodi'r achos ac mae'n ofynnol i chi gydweithredu â'r holl drefniadau er mwyn hwyluso hyn. **Oni bai bod APHA wedi cytuno ar oedi cyn symud anifail/anifeiliaid ymaith, gall methu â chydymffurfio ag un neu fwy o'r pwyntiau y manylir arnynt yn y tabl canlynol, sydd wedyn yn arwain at oedi cyn symud yr anifail/anifeiliaid y tu hwnt i'r dyddiad targed a nodwyd ar yr Hysbysiad o Fwriad i Ladd Anifeiliaid Buchol (TB03), gael effaith andwyol ar yr iawndal a gewch.**

Yng Nghymru, bydd prisiwr achrededig sy'n gymwysedig i brisio eich stoc benodol yn cael ei benodi i brisio'r anifail/anifeiliaid a restrwyd ar eich Hysbysiad o Fwriad i Ladd Anifeiliaid Buchol (TB03). Mewn rhai achosion,  y bydd APHA yn gofyn am gael prisio stoc ychwanegol yn rhagweithiol rhag ofn y bydd angen mynd â rhagor o anifeiliaid. Ni chaniateir i chi wneud cais am brisiwr penodol a dim ond os oes gennych wrthdaro buddiant cofrestredig dilys â'r prisiwr penodedig y cewch ei wrthod.

Cewch roi unrhyw wybodaeth berthnasol (e.e. cynnyrch llaeth, llwyddiant mewn sioeau, dosbarthiad) am eich gwartheg i'r prisiwr cyn i'r broses brisio ddechrau. Ni all y prisiwr drafod y prisiad y mae wedi penderfynu arno.

Crynodeb o'r prif bwyntiau y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt mewn perthynas â phrisio a lladd:

| **CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU MEWN PERTHYNAS Â PHRISIO A LLADD** | |
|---|---|
| **1.** | Mae'n rhaid adnabod anifail/anifeiliaid â thagiau clust, sy'n bodloni gofynion Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) (mae'n rhaid rhoi dau dag ar unrhyw un a anwyd ar ôl 1 Ionawr 1998). |
| **2.** | Mae'n rhaid i basbortau fod ar gael ar gyfer yr anifail/anifeiliaid ar adeg y prisiad i'r Prisiwr eu gwirio. Bydd anifail/anifeiliaid heb basbort neu y mae ganddo/ganddynt Hysbysiad o Gofrestriad CPP35, yn cael ei brisio/eu prisio â gwerth £1 ar y farchnad a |

| | |
|---|---|
| | bydd yn ofynnol ei ladd/eu lladd ar y fferm. Os nad oes gan yr anifail dan sylw basbort, ond mae'n iau na 37 diwrnod oed, ffoniwch swyddfa APHA Cymru. |
| **3.** | Mae'n rhaid bod gan anifail/anifeiliaid pedigri brawf o statws pedigri sydd ar gael ar adeg y prisiad i'r Prisiwr ei wirio (ni dderbynnir tystysgrifau Cofrestr Atodol A neu B, ASR/BSR). Os nad yw'r prawf ar gael, gellir prisio'r anifail fel stoc fasnachol. |
| **4.** | Mae'n rhaid bod gan anifail/anifeiliaid y cyhoeddir ei/eu bod yn anifail/anifeiliaid cyflo gael Datganiad Diagnosis Biechiogrwydd Milfeddygol (TR531) wedi'i lofnodi a'i ddyddio ar adeg y prisiad. Er mwyn i'r datganiad hwn fod yn ddilys, gall dyddiad yr archwiliad ar gyfer y beichiogrwydd a nodir ar y datganiad hwn fod hyd at 90 o ddiwrnodau cyn dyddiad y prisiad. Dylech drefnu i gael diagnosis beichiogrwydd cyn gynted â phosibl oherwydd,os na chyflwynir Datganiad Milfeddygol (TR531) dilys i'r prisiwr, caiff yr anifail dan sylw ei brisio yn unol â phrisiadau marchnad cymaradwy presennol ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn gyflo.<br>Cadwch gopi o'r datganiad beichiogrwydd ar gyfer unrhyw gais i oedi cyn symud gwartheg i fwrw llo neu os bydd unrhyw wartheg heblaw am y rhai hynny sy'n cael eu dileu nawr wedi'u rhestru arno. |
| **5.** | **Oedi cyn symud gwartheg ar gyfer dod oddi ar feddyginiaeth neu anifeiliaid sydd newydd fwrw llo**<br>**Dod oddi ar feddyginiaeth** - bydd APHA yn oedi cyn symud unrhyw anifeiliaid yn ystod cyfnod dod oddi ar feddyginiaeth ar gyfer cig a fydd yn gorffen mewn pryd i ganiatáu i'r anifail gael ei anfon i'w ladd ar neu cyn y pymthegfed diwrnod gwaith i'r dyddiad y nodwyd yr anifail i'w symud, ar yr amod y disgwylir i'r anifail fod yn iach i deithio bryd hynny.<br>**Anifeiliaid sydd newydd fwrw llo** - bydd APHA yn oedi cyn symud unrhyw anifeiliaid sydd newydd fwrw llo neu y disgwylir iddynt fwrw llo cyn y dyddiad targed o 10 diwrnod gwaith, am hyd at bum diwrnod gwaith arall, ar yr amod y disgwylir i'r anifail fod yn iach i'w anfon i ladd-dy bryd hynny.<br>**Ar gyfer yr achosion hyn o oedi cyn symud**, rhaid i'r ymweliad prisio ddigwydd yn ôl yr arfer, cyn y dyddiad targed o 10 diwrnod gwaith. Pan gaiff yr oedi cyn symud ei gynllunio gan APHA, ni fydd unrhyw ostyngiad mewn iawndal am fod yr anifail wedi'i symud ar ôl y dyddiad a nodwyd yn y Datganiad o Fwriad i Ladd Anifeiliaid Buchol (TB03). |
| **6.** | **Oedi cyn symud at ddibenion bwrw llo** – cewch ofyn am oedi cyn symud anifeiliaid y disgwylir iddynt fwrw llo o fewn 60 diwrnod iddynt gael eu nodi i'w symud. Rhaid i chi ofyn am hyn, fan bellaf, pan fydd APHA yn cysylltu â chi i drefnu'r prisiad er mwyn i APHA allu anfon Datganiad y Perchennog (TR212(W)) a'r Datganiad Milfeddygol (TR211(W)) atoch. Bydd angen i chi a'ch milfeddyg gwblhau'r datganiadau, gan gadarnhau y gallwch gydymffurfio â'r holl amodau gofynnol, a'u dychwelyd i APHA ynghyd â''r Datganiad Diagnosis Beichiogrwydd (TR531). Rhaid i APHA Cymru gael y datganiadau hyn o fewn pum diwrnod gwaith. Rhaid i chi hysbysu APHA cyn gynted â phosibl os byddwch yn penderfynu peidio â chyflwyno'r datganiadau gan y gallai oedi cyn symud anifeiliaid y tu hwnt i'r dyddiad targed yn yr Hysbysiad o Fwriad i Ladd (TB03) effeithio ar yr iawndal a gewch<br>Mae amodau pwysig ar gyfer oedi cyn symud anifail yn cynnwys bod yn rhaid i'r anifail gael ei gadw ar wahân mewn adeilad na all bywyd gwyllt fynd i mewn iddo heb unrhyw ofod awyr a rennir, na ellir symud anifeiliaid i'r daliad nac oddi yno heblaw i'w lladd nes i'r symudiad olaf a ohiriwyd gael ei gwblhau, ac y cynhelir y prawf Cyfnod Byr nesaf o leiaf 60 diwrnod ar ôl y symudiad wedi'i ohirio olaf. |

| | |
|---|---|
| | **Os byddwch yn gofyn am oedi cyn symud er mwyn i anifail allu bwrw llo,** rhaid i'r ymweliad prisio ddigwydd yn ôl yr arfer, cyn y dyddiad targed o 10 diwrnod gwaith. Pan gaiff yr oedi cyn symud ei gytuno gan APHA, ni fydd unrhyw ostyngiad mewn iawndal am fod yr anifail wedi'i symud ar ôl y dyddiad a nodwyd yn y Datganiad o Fwriad i Ladd Anifeiliaid Buchol (TB03). |
| **7.** | **Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr anifail/anifeiliaid yn iach i deithio i'r lladd-dy.** Mae'n rhaid i chi roi gwybod i APHA Cymru pan gysylltir â chi i drefnu'r apwyntiad prisio, neu unwaith y dewch i wybod, os yw unrhyw anifail/anifeiliaid yn dod o dan y categorïau hyn:<br>• o fewn deufis i fwrw llo (nid yw anifeiliaid sydd o fewn 28 diwrnod i fwrw llo yn ddigon iach i deithio i ladd-dy)<br>• o fewn saith diwrnod ar ôl bwrw llo (nid yw'n ddigon iach i deithio i ladd-dy)<br>• Buchod Godro, o fewn pedwar mis ar ôl bwrw llo, gan y gallai hyn effeithio ar ba ladd-dy y byddant yn mynd iddo<br>• Buchod Eidion - wedi cael toriad Cesaraidd neu wedi profi cymhlethdodau ar ôl bwrw llo, gan y gallai hyn effeithio ar ba ladd-dy y byddant yn mynd iddo<br>• yn gloff neu'n methu â chynnal pwysau neu'n orweddol neu nid yw'n ddigon iach oherwydd salwch<br>• o fewn cyfnod dod oddi ar feddyginiaeth, h.y. **rhaid eich bod yn gallu cwblhau Ffurflen Datgan Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd** - cyfeiriwch at y rhestr wirio isod<br>• yn wyllt a/neu ni ellir ei reoli/eu rheoli<br>Os bydd methu â hysbysu APHA yn golygu bod yr anifail/anifeiliaid yn cael ei/eu symud ar ôl y dyddiad a nodir yn yr Hysbysiad o Fwriad i Ladd Anifeiliaid Buchol (TB03), bydd gostyngiad yn y gwerth iawndal yn gymwys, a all fod hyd at 95% o werth y farchnad. |
| **8.** | **Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr anifail/anifeiliaid yn lân, pan fydd/fyddant yn mynd i mewn i'r lladd-dy.** Rhoddir cyngor yn y ffurflen Trwydded sy'n Awdurdodi Symud Gwartheg i Ladd-dy (TB24) ar gyflwyno gwartheg glân i'w lladd ac mae ar gael hefyd yn GOV.UK: [https://www.food.gov.uk/cy/business-guidance/gwartheg-a-defaid-glan](https://www.food.gov.uk/cy/business-guidance/gwartheg-a-defaid-glan). Gall Gweithredwyr Busnes Bwyd, am resymau hylendid bwyd, wrthod lladd gwartheg nad ydynt yn cyrraedd y safonau hylendid gofynnol.<br>Os na fydd haliwr yn fodlon ar hylendid y gwartheg sy'n cael eu casglu, bydd yn gwrthod eu llwytho, a fydd yn anochel yn arwain at oedi cyn eu symud o'ch safle. Os bydd hyn yn golygu bod yr anifail/anifeiliaid yn cael ei/eu symud ar ôl y dyddiad a nodir yn yr Hysbysiad o Fwriad i Ladd Anifeiliaid Buchol (TB03), bydd gostyngiad yn y gwerth iawndal yn gymwys, a all fod hyd at 95% o werth y farchnad. |
| **9.** | Ffurflen Prisio Anifeiliaid (BT01) - Pan fydd y prisiad wedi'i gwblhau, rhoddir copi o'r Ffurflen Prisio Anifeiliaid (BT01) i chi ar gyfer eich cofnodion. Os ydych yn bwriadu hawlio ar unrhyw becyn yswiriant sydd gennych, gofynnir i chi ddarparu copi o hwn, gan gynnwys y ddwy dudalen gyntaf. |

**Gweithdrefnau Symud**

Pan fydd y Weithdrefn Brisio wedi'i chwblhau, y cam nesaf yw symud yr anifail/anifeiliaid penodedig.

Oni fydd oedi cyn symud anifeiliaid ar gyfer dod oddi ar feddyginiaeth neu anifeiliaid newydd fwrw llo wedi'i gynllunio, neu wedi'i gytuno er mwyn i anifail allu bwrw llo, caiff anifeiliaid nad ydynt yn iach i deithio i ladd-dy eu lladd ar y fferm. Bydd APHA yn trefnu i'r carcas(au) gael ei

(eu) symud oddi ar y fferm ar gyfer archwiliad ar ôl lladd, a'i waredu/a'u gwaredu os bydd angen. Bydd y contractwr lladd ar y fferm yn cysylltu â chi'n uniongyrchol gyda dyddiad ac amser i hyn ddigwydd. Os na fydd y contractwr wedi cysylltu â chi o fewn naw diwrnod gwaith, ffoniwch swyddfa APHA Cymru. Eich cyfrifoldeb chi yw llenwi'r adran briodol ar y pasport i gofnodi'r farwolaeth ac anfon y pasbort i Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS).

Ar gyfer anifeiliaid sy'n ddigon iach i deithio, bydd APHA Cymru yn dewis y lladd-dy/lladd-dai a bydd y lladd-dy/lladd-dai neu'r haliwr/halwyr yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i drefnu dyddiad ac amser casglu. Os na fydd y lladd-dy na'r haliwr wedi cysylltu â chi o fewn naw diwrnod gwaith, ffoniwch swyddfa APHA Cymru. Ar gyfer gwartheg sy'n godro neu wartheg sy'n rhoi'r deth, bydd angen i chi roi gwybod i'r haliwr/halwyr am y tro diwethaf y cawsant eu godro neu'r tro diwethaf roedd lloi'n sugno eu tethi. Am resymau lles, mae'n ddoeth godro'r anifail mor agos at yr amser symud ag y bo modd.

Eich cyfrifoldeb chi yw llenwi'r adran briodol ar y pasport i gofnodi'r symud. Bydd angen i chi sicrhau bod y dogfennau canlynol yn bresennol ac y cânt eu cyflwyno i'r haliwr/halwyr sy'n casglu'r anifail/anifeiliaid.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Trwydded sy'n Awdurdodi Symud Gwartheg i Ladd-dy (TB24)** - Caiff y drwydded hon ei phostio atoch ar wahân i'r dogfennau a restrir drosodd a dylai fynd gyda'r anifail/anifeiliaid adweithio/Cyswllt Uniongyrchol/adweithio amhendant gorfodol i'r lladd-dy/lladd-dai). Os nad ydych wedi cael y drwydded hon erbyn adeg y prisiad, ffoniwch swyddfa APHA Cymru. Cadwch gopi ar gyfer eich cofnodion chi. | ☐ |
| 2. | **Ffurflen Datgan Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd** - A yw'n iawn i bobl fwyta'r anifeiliaid? Eich cyfrifoldeb chi yw cael copi o'r ffurflen hon, ei llenwi a'i chyflwyno i'r haliwr/halwyr ynghyd â chopi o'r Drwydded Awdurdodi Symud Gwartheg i Ladd-dy (TB24) a'r pasbortau. Gallwch gael copi o'r ffurflen hon yn uniongyrchol o'r Asiantaeth Safonau Bwyd drwy anfon neges e-bost i Approvals@food.gov.uk neu ffonio 0330 332 7149. | ☐ |
| 3. | **Pasbortau Gwartheg** - i'w cyflwyno i'r haliwr/halwyr ar gyfer pob anifail sydd i'w symud. Ni fydd gwartheg heb basbort dilys yn cael eu llwytho ar y lori. | ☐ |

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch sy'n ymwneud â phrisio a/neu symud eich gwartheg, neu os hoffech gael eglurhad am unrhyw wybodaeth yn y daflen hon, ffoniwch swyddfa APHA Cymru ar 0300 303 8268.

Ni chaiff unrhyw achos o gam-drin unrhyw aelod o staff APHA, nac unrhyw un sy'n gweithredu ar ran APHA (priswyr/cludwyr ac ati), yn ystod y broses prisio a symud, ei oddef.

**Cadwch y ddogfen hon er mwyn cyfeirio ati yn y dyfodol oherwydd gall fod angen symud anifail/anifeiliaid ychwanegol.**

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.